Cydnabod rhieni fel partneriaid

Sioned Williams: Fy enw i ydi Sioned Williams, a nes i benderfynu bod yn rhan o'r prosiect can stori achos dwi'n meddwl ei fod o'n andros o bwysig fel rhiant ein bod ni'n gallu rhannu ein profiadau a'n dyheadau.

Dwi'n fam i berson ifanc... dwi'n fam lwcus iawn i berson ifanc 14-mlwydd-oed sydd efo anabledd dysgu. Y fo ydi fy athro i, y fo sy'n dysgu fi mewn bywyd, a da ni'n cael lot o hwyl a dwi'n andros o falch ohono, o beth mae o wedi llwyddiannau yn ei fywyd hyd yma.

Cyfwelydd: *Fel rhan o'r stori felly, beth sy'n bwysig i ti fel unigolyn a pam mae hyn yn bwysig i ti fel unigolyn?*

Sioned Williams: Dwi'n meddwl beth sy'n bwysig i fi fel unigolyn ydi, maen bwysig fod y llais yn cael ei glywed fel rhiant.

Dwi'n meddwl fod yn aml iawn fel rhieni, da ni'n cael ein gweld fel pobl ella sydd yn boen. Ond be tydi bobl ddim wir yn gwerthfawrogi, dwi'n teimlo, ydi mae gennym ni gymaint o arbenigedd. Dwi wedi delio efo iechyd, dwi wedi delio efo addysg, dwi wedi delio gyda gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym ni gymaint o wybodaeth a dwi ddim yn teimlo ein bod ni bob amser yn cael ein parchu am y wybodaeth sydd gennym ni.

Dwi ddim isho bod yn negyddol, dwi ddim isho bod yn feirniadol, ond be dwi isho ydi cydnabyddiaeth. Dwi isho gweld cyd-gynhyrchu'n digwydd o'r cychwyn un, dim lawr y lein, dwi isho fo o'r dechrau. Dwi'n awyddus iawn i fod yn rhan o ddatblygiadau, datblygiadau gwasanaethau'r dyfodol. Mae gen i gymaint o wybodaeth dwi'n gallu ei gynnig a syniadau hefyd.

A dwi'n meddwl bod ni jyst yn cael ein parchu am pwy ydan ni a cydnabod ein pryderon ni fel rhieni, a bod ni ddim jyst y bobl sydd yn boen ac yn cwyno ac, 'wyddoch chi, 'da ni'n angerddol am ein plant yn amlwg. A dwi'n angerddol am weld ein gwasanaethau'n datblygu i'r dyfodol er lles pobl ifanc ac oedolion efo anableddau dysgu yn Gogledd Cymru.

Cyfwelydd: *Felly os fysa ni'n edrych ymlaen dwy flynedd - mae'r prosiect yma wedi gorffen, mae'r awdurdodau a'r bobl sydd yn gwneud penderfyniadau wedi cytuno bod angen newid pethau, beth fyse ti'n hoffi gweld ymhen dwy flynedd sydd yn wahanol i beth sydd yna heddiw?*

Sioned Williams: Ein bod ni'n cael ein cynnwys; bod ein llais yn cael ei glywed; bod ni'n cael ein cyfri fel pobl broffesiynol y dyle ni fod yn cael ein cyfri i gychwyn hefo'r môr o wybodaeth sydd gennym ni. Bod ni yn angerddol; dim jyst i fod yn negyddol ond i fod yn

bositif hefyd, i edrych ar sut fedrwn ni wella gwasanaethau i bobl ifanc, plant ac oedolion efo anableddau dysgu yn Ogledd Cymru.

Bod ni'n rhannol o'r cychwyn un. Mae yna lot o siarad o gyd-gynhyrchu yn digwydd ond yn anffodus i mi fel rhiant mae o dal yn "tick box exercise" yn fy meddwl i. Da ni dal ddim yna, da ni dal ddim yn cael ein cydnabod fel y dyle ni. A dwi'n meddwl bod yna lot mwy o le i wella o ran cynnwys rhieni o'r cychwyn un hefo'r gwybodaeth sydd genyn nhw am eu plant neu bobl ifanc neu oedolion. A bod ni'n cael ein cydnabod fel pobl broffesiynol y dyle ni fod 'llu, dwi'n teimlo - o ran y wybodaeth sydd gennym ni.

Cyfwelydd: *Wyt ti'n teimlo bod y rhaglen 100 stori wedi bod yn ffordd effeithiol o wneud hyn?*

Sioned Williams: Dwi'n meddwl bod o'n bwysig i bobl glywed straeon. Maen hawdd dweud fod pethau'n gweithio pan yn amlwg dydi o ddim yn gweithio o hyd. A dwi'n meddwl bod o'n bwysig bod pobl fel fi sydd yn rhiant, sydd isho gweld gwella a isho gweld pethau 'wyddoch chi, dwi ddim yn negyddol i gyd - mae yna bethau da yn digwydd allan yna. Ond mae yna wastad le i wella, yn does. A dwi'n teimlo lle... fel rhiant dwi wedi teimlo mwy nag unwaith nad ydw i yn cael yn... does dim siarad efo fi am fy mhrofiadau a gwybodaeth sydd genna i a beth ydw i'n gallu ei gynnig.

Dwi'n teimlo ychydig bach, wel, 'da ni wedi gofyn un cwestiwn neu beth bynnag, da chi'n gwybod mae o'n "tick box" a dyna fo, symud ymlaen. Dwi isho gweld mwy o weithio yn agosach hefo fi fel rhiant; ac mae hyn dim jyst i addysg, mae o ar hyd y bwrdd i gyd, mae o i addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol. A dwi'n meddwl os fysa yna fwy o gyd-gynhyrchu, dwi'n meddwl byse ni'n medru cynnig syniadau eithaf creadigol o ran ffyrdd o ddatblygu gwasanaethau sydd o fudd i'r bobl 'da ni'n cefnogi.

A dwi'n meddwl bysa fo'n dda os fysa ni'n cael bod yn rhannol... mae gennym ni rhywbeth i'w ddweud, dyna ydi o yn de. Mae gennym ni rhywbeth i'w ddeud ac mae gennym ni rhywbeth i gynnig. A dwi'n meddwl bysa mwy o gydnabyddiaeth i rieni fel fi, a ddim cael ein gweld fel rhywun sydd yn boen 'oh' yn yr ochr, yn fanna.

Da chi'n gwybod - dwi isho cael cydnabyddiaeth o fod gen i'r wybodaeth a bod gen i'r angerdd i wella.